# Ysgol Llanhari

Pennaeth | Headteacher:
**Mrs Meinir Thomas**

Llanhari, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, CF72 9XE
☎ 01443 237824 | 🖷 01443 227365 | post@llanhari.com
www.llanhari.com

14eg o Dachwedd 2022

Annwyl Rieni / Ofalwyr

Mae'n gyfnod prysur ar hyn o bryd yn yr ysgol a hoffwn grynhoi ambell neges ar Classcharts am ddyddiadau pwysig ar gyfer ein holl ddisgyblion yn ystod yr wythnosau nesaf :

**Dydd Mercher 16eg o Dachwedd –** cyfle i ddisgyblion wisgo sannau rhyfedd neu od i'r ysgol er mwyn dangos cefnogaeth yn ystod Wythnos Gwrth-fwlio

**Dydd Gwener 18fed o Dachwedd** – Diwrnod Plant mewn Angen a chyfle i ddisgyblion wisgo smotiau neu byjamas a chyfrannu £1 os gwelwch yn dda

**Dydd Gwener 25ain o Dachwedd** – Diwrnod Dathlu Cymreictod. Bydd llu o weithgareddau hybu Cymreictod yn digwydd yn ystod y diwrnod. Cyfle i wisgo coch a chefnogi tîm Cymru yn eu hymgyrch yng Nghwpan y Byd

**Dydd Mawrth 29ain o Dachwedd –** Gwisgo coch i gefnogi Felindre. Mae'r diwrnod yma yn digwydd fel arfer ym mis Chwefror ond bydd yr ymgyrch codi arian at yr elusen arbennig hwn yn digwydd ar yr un diwrnod ag y mae Cymru yn herio Lloegr yng Nghwpan y Byd. Gofynnwn yn garedig am gyfraniad o £1 os gwelwch yn dda.

Dymuniadau gorau i gôr yr adran uwchradd sy'n cystadlu yn Eisteddfod Cwm Rhondda Dydd Sadwrn yma. Bydd cyfle i chi glywed y côr a nifer o eitemau eraill yn ein Dathliad Nadolig ysgol gyfan ar y 15fed o Ragfyr. Bydd tocynnau ar werth o'r 1af o Ragfyr. Gweler y poster sydd wedi ei atodi. Yn yr un modd, mae rhieni'r adran gynradd wedi derbyn manylion am y sioeau Nadolig mewn negeseuon blaenorol ar Classcharts. Edrychwn ymlaen yn fawr at eich croesawu i'r ysgol.

Yn gywir

*Meinir Thomas*

Pennaeth

Ysgol Llanhari

GORAU GWASANAETH GWAITH

Pennaeth | Headteacher:
**Mrs Meinir Thomas**

Llanhari, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, CF72 9XE
☏ 01443 237824 | 🖷 01443 227365 | post@llanhari.com
**www.llanhari.com**

14th of November 2022

Dear Parents / Carers

It's a very busy time at the moment in school and I would like to highlight some of the numerous messages on Classcharts about key dates for all our pupils during the next few weeks:

**Wednesday 16th November -** an opportunity for pupils to wear strange or odd socks to school to show support during Anti-Bullying Week

**Friday 18th November** - Children in Need Day and an opportunity for pupils to wear spots or pyjamas and to donate £1 please

**Friday 25th November** – A day to Celebrate being Welsh. A range of activities to promote Wales and the Welsh language will take place throughout the day. There will be an opportunity to wear red and support the Welsh football team's campaign in the World Cup

**Tuesday 29th November** – Wear red to support Velindre Cancer Centre. This day usually takes place in February but the fundraising campaign for this special charity will take place on the same day as Wales take on England in the World Cup. We kindly ask for a donation of £1 please.

Our best wishes to the secondary department's choir who are competing in the Eisteddfod y Rhondda this Saturday. You will have the opportunity to hear the choir and a number of other items at our whole school Christmas Celebration on the 15th of December. Tickets will be on sale from the 1st of December. See the attached poster. The parents of the primary department have already received details about the Christmas shows in previous messages on Classcharts. We are really looking forward to welcoming you to the school.

Yours sincerely

*Meinir Thomas*

Headteacher